| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cabinet** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **2 Mehefin 2015** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol: dros Addysg** | **Y Cynghorydd Eryl Williams, Aelod Arweiniol** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Pennaeth Cwsmeriaid a Chefnogaeth Addysg** |
| **Teitl:** | **Ysgol Llanbedr** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Bwriad yr adroddiad yw rhoi gwybod i Aelodau'r Cabinet ynglŷn â'r trafodaethau gydag Awdurdod Esgobaethol yr Eglwys yng Nghymru ynglŷn â dyfodol Ysgol Llanbedr.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Bydd angen i'r Cabinet benderfynu a ddylid bwrw ymlaen i gynnal ymgynghoriad ffurfiol ar y cynnig mewn perthynas ag Ysgol Llanbedr.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Cymeradwyo'r ymgynghoriad ffurfiol ar y cynigion i gau Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir Llanbedr ar 31 Awst 2016 a throsglwyddo'r disgyblion presennol i Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir Borthyn, yn dibynnu ar ddewis y rhieni.

## 4. Manylion yr Adroddiad.

4.1 Ym mis Ionawr 2015 gwrthododd Llywodraeth Cymru gynnig Sir Ddinbych i gau Ysgol Llanbedr. Rhoddodd y Cabinet awdurdod ym mis Chwefror 2015 i swyddogion ddechrau ymgynghori â'r Eglwys yng Nghymru ar unrhyw gynnig sydd ganddynt ynglŷn â dyfodol Ysgol Llanbedr ac adrodd yn ôl i'r aelodau.

<u>Yr achos dros newid</u>

4.2 Mae Ysgol Llanbedr yn Ysgol Gynradd Cyfrwng Saesneg Wirfoddol a Reolir gan yr Eglwys yng Nghymru, sy'n gwasanaethu'r ystod oed 3-11. Lleolir yr ysgol ar gyrion pentref Llanbedr Dyffryn Clwyd. Ym mis Ionawr 2015 (dyddiad y cyfrifiad disgyblion blynyddol) roedd 22 o ddisgyblion Llawn Amser ar gofrestr Ysgol Llanbedr. Mae nifer y disgyblion wedi aros yn gyson dros y 3 blynedd diwethaf yn dilyn gostyngiad blaenorol. Dangosir y rhain yn y tabl isod;

**Nifer y Disgyblion Llawn Amser 2011-2015**

| 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|---|
| 59 | 37 | 21 | 21 | 22 |

***Data mis Ionawr bob blwyddyn**

4.3 Ym mis Ionawr 2015 dyma oedd niferoedd y grwpiau blwyddyn;

**Grwpiau Blwyddyn 2014-2015**

| Derbyn | Bl. 1 | Bl. 2 | Bl. 3 | Bl. 4 | Bl. 5 | Bl. 6 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 7 | 3 | 6 | 2 | 3 | 0 | 1 |

***Data mis Ionawr 2015**

4.4 Mae rhagolwg nifer disgyblion y Cyngor, yn seiliedig ar y nifer presennol o ddisgyblion yn awgrymu y bydd cynnydd yn y nifer o ddisgyblion yn yr ysgol, ac amlinellir hyn isod;

**Rhagolygon Disgyblion 2016-2020***

| 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 |
|---|---|---|---|---|
| 32 | 39 | 44 | 51 | 53 |

***Data Rhagolygon Disgyblion mis Mai 2015**

4.5 Dyma nifer y ceisiadau ar gyfer y dosbarthiadau Meithrin a Derbyn yn ystod blwyddyn academaidd 2015/2016;

| | |
|---|---|
| **Meithrin** | 4 |
| **Derbyn** | 11 |

Yn seiliedig ar y ffigurau hyn, dyma'r rhagolygon ar gyfer y pum mlynedd nesaf.

**Rhagolygon Disgyblion 2016-2020***

| 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 |
|---|---|---|---|---|
| 32 | 36 | 40 | 45 | 45 |

***Data Rhagolygon Disgyblion mis Mai 2015**

4.6 Cofnodir mai nifer lleoedd adeilad parhaol yr ysgol yw 54 ar hyn o bryd. Yn dilyn sylwadau gan y Corff Llywodraethu cafodd y nifer lleoedd hwn ei ail-gyfrifo a bydd y ffigwr diwygiedig o 77 lle yn cael ei weithredu o 1 Medi 2016. Bydd y nifer lleoedd diwygiedig yn creu cynnydd pellach yn y lleoedd gwag pe bai'r ysgol yn parhau ar agor.

4.7 Yn ôl cofnod disgyblion mis Ionawr 2015, mae gan yr ysgol 22 Disgybl Llawn Amser a 7 Disgybl Rhan Amser ar hyn o bryd. Gan ddefnyddio'r cyfanswm diwygiedig o leoedd presennol o 54 mae gan yr ysgol 32 o leoedd gwag a % y lleoedd gwag yw 59.3%. Erbyn 2020, gyda'r asesiad nifer lleoedd diwygiedig, rhagwelir y bydd gan yr ysgol 31.2% o leoedd gwag ar y gorau a 41.6% o leoedd gwag ar y gwaethaf. Mae Llywodraeth Cymru wedi cynghori Awdurdodau i gymryd 'camau pwrpasol' mewn achosion lle mae dros 25% o leoedd gwag mewn ysgolion.

4.8 Er bod rhagolygon disgyblion yn dangos cynnydd yn nifer y disgyblion dros y blynyddoedd i ddod a allai efallai ostwng lleoedd gwag yn yr ysgol, bydd Ysgol

Llanbedr yn dal yn parhau'n 'ysgol fach' a bydd materion yn parhau o ran cynaladwyedd a hyfywedd Ysgol Llanbedr a safonau addysg a chyrhaeddiad yn y dyfodol. Fel rhan o adolygiad ehangach o ardal Rhuthun, mae pob ysgol gyda llai nag 80 disgybl wedi wynebu cynigion ar gyfer newid.

4.9 Mae Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn nodi fod rhaid ymgynghori gyda'r corff crefyddol priodol am 28 diwrnod cyn y gwneir unrhyw benderfyniad i fwrw ymlaen i ymgynghori'n ffurfiol. Cynhaliwyd ymgynghoriad ag Esgobaeth Llanelwy'r Eglwys yng Nghymru rhwng 20 Ebrill ac 18 Mai. Mae cynrychiolwyr y Corff Llywodraethu ac Esgobaeth Llanelwy wedi cyfarfod yn anffurfiol ag Aelodau Cabinet yn ystod y cyfnod ymgynghori hwn i gyflwyno eu barn ar ddyfodol Ysgol Llanbedr. Eu cynnig oedd atal yr ymgynghori arfaethedig i gau Ysgol Llanbedr er mwyn caniatáu i Fwrdd Addysg Statudol Esgobaeth Llanelwy sicrhau partner ffedereiddio ar gyfer Ysgol Wirfoddol a Reolir Llanbedr a dechrau ymgynghoriad ar newid statws o ysgol Wirfoddol a Reolir i ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir. Fel rhan o'r cynnig ceir ymrwymiad i adolygu dyfodol yr ysgol ym mis Mai 2018 ac os na fydd yr Esgobaeth wedi cyflawni ffederasiwn lwyddiannus, newid statws a gostwng y lleoedd gwag o fewn 10% o'r nifer lleoedd estynedig, bydd yr Esgobaeth yn gweithio gyda'r Awdurdod i ddechrau ymgynghoriad pellach ar gau. Mae'r cyflwyniad ffurfiol gan yr Esgobaeth wedi ei gynnwys yn Atodiad 1.

4.10 Wrth ystyried y cyflwyniad gan yr Esgobaeth, rhaid i'r Cabinet roi ystyriaeth briodol i sylwadau a dderbyniwyd cyn gwneud unrhyw benderfyniad i fwrw ymlaen i ymgynghori cyffredinol. Wrth ystyried y sylwadau hyn mae angen i Aelodau'r Cabinet ystyried a oes digon o wybodaeth i gyfiawnhau atal ymgynghori ffurfiol. Os gwneir penderfyniad i ymgynghori ni fyddai hyn yn atal y Corff Llywodraethu rhag gwneud rhagor o waith mewn partneriaeth â'r Esgobaeth a'r Awdurdod Lleol ar ddatblygu cynigion mwy cadarn ynghylch yr opsiynau ar gyfer ffederasiwn.

4.11 Rhagwelir y bydd yr Ymgynghoriad ar y cynnig (gweler Atodiad 2) i gau Ysgol Llanbedr yn digwydd rhwng 16 Mehefin a 28 Gorffennaf. Bydd hyn yn caniatáu i drafodaethau ddechrau yn ystod tymor yr ysgol gydag ymgynghoriad yn digwydd am o leiaf chwe wythnos gydag o leiaf 20 diwrnod o'r cyfnod ymgynghori yn digwydd yn y tymor yr ysgol yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion. Bydd y broses ymgynghori yn rhoi'r cyfle i rieni, disgyblion, llywodraethwyr, staff a budd-ddeiliaid eraill wneud sylwadau ar y cynigion cyn i'r Cabinet benderfynu a ddylid bwrw ymlaen i gyhoeddi'r cynigion ar gyfer newid yn ffurfiol.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1 Mae'r cynnig yn cefnogi'r flaenoriaeth o "Wella perfformiad mewn addysg ac ansawdd ein hadeiladau ysgol" ac wedi'i amlygu fel ffrwd waith fel a ganlyn: "Byddwn yn parhau i adolygu darpariaeth ysgol ar draws y Sir i sicrhau ein bod yn darparu'r nifer cywir o leoedd ysgol, a'u bod o'r math cywir, yn y lleoliad cywir."

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1 Y brif gost mewn perthynas â cham hwn y cynigion fydd argraffu a phostio a chostau'n gysylltiedig â threfnu cyfarfodydd cyhoeddus. Os byddwn yn bwrw ymlaen â'r cynigion a'u gweithredu, rhagwelir y bydd angen cefnogaeth AD i staff a effeithir gan y newidiadau bwriedig.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai'r templed AEC wedi'i lenwi gael ei atodi fel atodiad i'r adroddiad.**

7.1 Cynhaliwyd Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb ynghylch y cynnig i gau Ysgol Llanbedr. Y prif ganfyddiadau yw: -

7.2 Byddai'r cynnig yn arwain at gau ysgol yn seiliedig ar ffydd yr Eglwys yng Nghymru ym mhentref Ysgol Llanbedr. Nid yw'r Cyngor yn credu y bydd hyn yn cael effaith anghymesur ar unrhyw un o'r nodweddion a ddiogelir - yn benodol ffydd gan fod yr ysgol amgen arfaethedig yn cynnig darpariaeth yn seiliedig ar ffydd. Yn ogystal, mae lleoedd eraill sy'n seiliedig ar ffydd ar gael sy'n cynnig darpariaeth cyfrwng Saesneg.

7.3 Mae'r Cyngor yn cydnabod y byddai'r cynnig yn arwain at newid yn yr amgylchedd dysgu ar gyfer pob disgybl pe bai'n cael ei weithredu. Mae'r Cyngor yn cydnabod y gallai hyn fod yn arbennig o heriol ar gyfer disgyblion ag ADY. Yn yr achos hwn byddai'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda rhieni a'r disgyblion cyn ac yn ystod y cyfnod trosglwyddo i ysgol arall. Byddai'r gefnogaeth y mae disgyblion ag ADY yn ei derbyn ar hyn o bryd yn cael ei darparu yn eu hamgylchedd dysgu newydd. Mae'r ddarpariaeth amgen arfaethedig yn darparu safon o ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ADY sydd o leiaf yn gyfartal â'r hyn y maent yn derbyn ar hyn o bryd yn Ysgol Llanbedr. Os byddwn yn bwrw ymlaen â'r cynnig, byddai swyddogion priodol yn gweithio gyda rhieni a disgyblion unigol. Nid oes unrhyw ddisgyblion yn Ysgol Llanbedr yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol.

**8. Pa ymgynghori a wnaed â'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

8.1 Cynhaliwyd ymgynghoriad cychwynnol gydag Awdurdod Esgobaethol yr Eglwys yng Nghymru a chofnodir eu barn ym mharagraff 4.9.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Nid oes cost sylweddol i'r broses statudol a chaiff ei gyfyngu o fewn adnoddau presennol. Mae oedi mewn gweithredu posib o'r cynnig wedi arwain at bwysau sy'n cael ei gynnal o fewn yr adnoddau presennol ar gyfer 2015/16 . Efallai y bydd angen ateb parhaol yn dibynnu ar ganlyniad yr ymgynghoriad.

## 10. Pa risgiau sydd yna ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Mae posibilrwydd cryf y gallai'r cynnig arwain at gyhoeddusrwydd anffafriol i'r Cyngor a sylwadau cyhoeddus andwyol.
Er mwyn lleihau'r risg hon, bydd y Cyngor yn ceisio sicrhau cyfathrebu clir gyda'r holl fudd-ddeiliaid.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Deddf Safonau a Sefydliadau Ysgolion (Cymru) 2013
Fframwaith Bolisi Moderneiddio Addysg (cymeradwywyd gan y Cabinet ym mis Ionawr 2009)